Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Camros a'r Garn

**Canolfan Gymunedol Camros**
**Pelcombe**
**Hwlffordd**
**SA62 6AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cylch Chwarae Camros a'r Garn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Camros a'r Garn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Claire Smith |
| Person â chyfrifoldeb | Claire Smith |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | Mae 12 plentyn tair oed a thri phlentyn pedair oed yn mynychu'r lleoliad. |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | Naw |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 09:00 – 12:50 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Yr arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 22/11/2022 |
| Ailgofrestrwyd y lleoliad yn 2020 pan ddaeth yn Sefydliad Corfforedig Elusennol. Roedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi'i gofrestru fel un o'r Personau Cofrestredig yn flaenorol. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf gan AGC yn 2018. | |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a gweithgareddau dan arweiniad plant bob amser yn briodol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â chynllunio ei thema hwiangerddi er mwyn cefnogi ac ehangu dysgu'r plant a rhoi'r thema honno ar waith, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Y prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae gan y plant lais cryf iawn yn y lleoliad hwn. Maent yn gwneud llawer o ddewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Ar gyfer rhannau helaeth o bob sesiwn, gall y plant ddewis beth y byddant yn chwarae ag ef. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol a ddarperir i lunio eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau, er enghraifft, dewis o blith yr adnoddau a'r offer sydd ar gael i greu eu lluniau eu hunain o dŷ neu i ystyried sut i winsio eu ceir i fyny yn lifft y garej. Mae pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb.

Mae gweithdrefnau setlo hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn barod i ddechrau ei ddiwrnod. Caiff y nifer fach iawn ohonynt sydd ychydig yn dawel neu'n ofidus pan fyddant yn cyrraedd eu cefnogi'n effeithiol a byddant wrthi'n chwarae'n hapus maes o law. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos â'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallant sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau, er enghraifft wrth ofyn am fwy o laeth neu am gael darllen stori. Mae hawliau'r plant yn sail i bolisïau ac ethos y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn fel sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, a chaiff mân anghytundebau achlysurol eu datrys yn gyflym. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r sesiwn; maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i barchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio er mwyn helpu i dacluso. Maent yn dysgu am ddefnyddio dwylo caredig, am ddangos canmoliaeth tuag at eraill fel 'I like your shoes' ac am fod yn gwrtais.

Mae pob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn barhaus yn eu chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, er enghraifft defnyddio toes chwarae i wneud cacennau bach, adeiladu â blociau neu archwilio adnoddau sy'n gysylltiedig â'r gân 'Sing a Song of Sixpence'. Maent yn dangos cyffro wrth ddod o hyd i'r llygoden yn y goedwig neu wrth symud y car o amgylch y llawr gan ddefnyddio rheolydd o bell. Mae cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion hefyd o fudd i'r plant, er enghraifft amser llyfr a chanu. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda iawn drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Drwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, mae'r plant yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth a sgiliau hunan-help wrth iddynt hongian eu cotiau eu hunain, casglu eu pecynnau cinio, arllwys eu diodydd eu hunain a rheoli eu hanghenion personol fel golchi eu dwylo'n annibynnol.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn llwyddo i sicrhau bod eraill yn eu deall ac yn meithrin eu sgiliau siarad a gwrando yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig wrth sôn amdano'i hun neu ei ffrindiau. Er enghraifft, maent yn canmol eu ffrindiau ac yn siarad yn garedig â nhw wrth gynnig eu helpu. Maent yn dangos mwynhad wrth wrando ac yn ymgymryd â thasgau mewn ymateb i gyfarwyddiadau. Mae llawer o'r plant yn siarad yn hyderus ac yn meddu ar sgiliau iaith datblygedig a geirfa eang. Er enghraifft, maent yn sôn am y llygoden yn llythrennol yn diflannu. Mae bron pob plentyn yn adnabod ei enw ei hun. Maent yn ymddwyn fel darllenwyr wrth edrych ar lyfrau, gan eu dewis yn annibynnol a thrafod y lluniau a'r straeon yn hapus â'u ffrindiau.

Mae bron pob plentyn yn ymuno'n frwdfrydig wrth ganu caneuon a hwiangerddi yn Saesneg, yn Gymraeg, yn Rwsieg ac yn Tsieinëeg. Maent yn gwneud hyn bob dydd ac yn gwneud dewisiadau pwrpasol am ba iaith i'w defnyddio i ganu. Mae llawer o'r plant yn meithrin eu sgiliau gwneud marciau yn briodol yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored gan ddefnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio iaith fathemategol yn llwyddiannus wrth chwarae. Maent yn sôn am gacennau mawr a chacennau bach yn yr ardal toes ac am y rhifau ar ddarnau arian a'r adar duon yn yr ardal chwarae rôl wrth iddynt esgus eu bod mewn hwiangerdd. Mae llawer o'r plant yn cyfrif yn ddibynadwy hyd at ddeg yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae rhai o'r plant yn cyfrif hyd at rifau llawer mwy.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio'r Gymraeg i gyfrif eitemau ac i nodi lliwiau wrth chwarae. Maent yn canu hwiangerddi a chaneuon rhif Cymraeg yn frwdfrydig drwy gydol y sesiwn. Maent yn naturiol yn defnyddio ymadroddion a geiriau Cymraeg yn gywir, er enghraifft wrth ddweud diolch ac wrth ymateb i'r gofrestr. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau Cymraeg gan ddangos dealltwriaeth gynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen i wylio straeon Cymraeg ac i dynnu lluniau. Mae bron pob plentyn yn rheoli teganau sy'n defnyddio rheolydd o bell yn fedrus ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio dyfeisiau recordio sain wrth chwarae.

Mae bron pob plentyn yn datblygu ei sgiliau cydgysylltu yn briodol, er enghraifft drwy lenwi blychau bwydo adar â hadau a thrwy ddefnyddio sgwpiau bach i ddidoli peli pom pom. Maent yn defnyddio rhawiau a thryweli yn yr ardal dywod, cyllyll i dorri ffrwythau ac maent yn arllwys eu diodydd eu hunain. Yn yr awyr agored, maent yn archwilio'r coetir, yn defnyddio beiciau a sgwteri ac yn rhedeg er mwyn mynd allan o anadl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau creadigol yn dda. Wrth ddysgu am hwiangerddi, maent yn canu, yn tynnu lluniau ac yn chwarae gwahanol rolau yn hyderus. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl maent yn esgus mai nhw yw'r forwyn sy'n hongian y dillad, y brenin yn cyfrif ei arian neu'r cogydd yn gwneud pastai gan ddefnyddio 'four and twenty blackbirds'.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae gan yr arweinwyr systemau addas ar gyfer rhoi meddyginiaethau os bydd angen ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd penodol plant unigol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i'r plant. Maent yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed ac yn cymryd rhan mewn rhaglen gwobrau iach. Maent yn annog y rhieni i ddarparu opsiynau iach mewn pecynnau cinio ac mae systemau addas ar waith i ymdopi ag alergeddau. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i dreulio cryn dipyn o amser yn yr awyr agored bob dydd, sy'n sicrhau eu bod yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a chofnodlyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae'r ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl ragorol i'r plant. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau, er enghraifft mwytho llaw er mwyn arddangos dull caredig a thyner.  O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin ac yn hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi'r plant y gall fod ganddynt anghenion ychwanegol yn gynnar ac mae systemau da iawn ar waith i gefnogi'r plant hynny a'u teuluoedd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gofal unigol ar gael i'r plant os bydd ei angen. Maent yn rhagweithiol wrth gael gafael ar gyngor gan asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a therapyddion lleferydd ac iaith ac wrth weithredu'n unol â'r cyngor hwnnw. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd rhagorol.

Mae'r ymarferwyr yn ymatebol iawn i'r plant. Maent yn chwarae'n effeithiol â'r plant er mwyn cefnogi ac ehangu'r dysgu, er enghraifft, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o iaith fathemategol, archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Maent yn ystyried hoff bethau a diddordebau'r plant yn ogystal â'u camau dysgu nesaf ac maent yn gweithredu mewn ffordd hyblyg, er enghraifft, gan gydnabod pan fydd y plant yn awyddus i barhau i ystyried thema y tu hwnt i'r cyfnod amser a fwriadwyd. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu system effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd y plant.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn a sicr o sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau pwrpasol ac ysgogol i'r plant yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored, er enghraifft gan ddefnyddio cerrig â rhifau arnynt a chylchoedd pren mawr, cregyn a broc môr i wneud clociau sy'n gysylltiedig â 'Hickory Dickory Dock'. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyffrous, yn ddiddorol ac yn ysgogol. Dyma un o gryfderau'r lleoliad. Maent yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau ynghylch ble yr hoffent chwarae. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau ac yn cael cynnig digon o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio i'r plant brofi rhyfeddod, er enghraifft drwy chwilio am lygoden fach yn y coetir ar ôl methu â dod o hyd iddi yn ei thŷ. Maent yn annog y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae ac yn defnyddio cwestiynau i'w helpu i ddeall. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau ysgogol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r amser dan arweiniad oedolion yn rhy hir.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwynhau'r awyr agored drwy ymweliadau rheolaidd â'r coetir lle maent yn eu hannog i chwilio am bryfed, hela am anifeiliaid ac arsylwi ar y coed a'r boncyffion. Yma maent yn dysgu sut i gerdded yn ddiogel ar hyd tir llithrig ac anwastad. Mae'r ymarferwyr hefyd yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddefnyddio cyfarpar mawr fel beiciau cydbwyso, sgwteri, llithrennau a siglen. Mae hyn yn sicrhau y caiff y plant eu herio i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i fwynhau'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a datrys problemau'r plant yn briodol. Maent yn annog y plant i holi ac ateb cwestiynau ac yn gwneud sylwadau sy'n annog y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud, er enghraifft, wrth arllwys dŵr i lawr sianeli er mwyn symud hwyaid a phryfed cop. Mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant edrych ar lyfrau ac maent yn darllen straeon mewn ffordd gynnes, gan alluogi'r plant i feithrin cariad tuag at lyfrau a straeon.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, drwy drafodaethau, straeon, caneuon a gweithgareddau, er enghraifft, canu yn Rwsieg ac yn Tsieinëeg a dysgu am Diwali a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn mwynhau edrych ar dîm pêl-droed Cymru, baner Cymru a map o Gymru yn yr amgylchedd dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod sesiynau. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn mwynhau digon o gyfleoedd i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud arsylwadau defnyddiol ar yr hyn y gall y plant ei wneud wrth chwarae. Maent yn casglu gwybodaeth sy'n nodi'r camau dysgu nesaf yn llawn ac sy'n sicrhau y caiff diddordebau'r plant eu dilyn yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac maent yn herio'r plant yn briodol wrth iddynt chwarae. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn rheolaidd,

ac maent yn rhannu syniadau ar gyfer dysgu a datblygu gartref. Mae hyn yn cefnogi'r teuluoedd yn dda.

**Yr Amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnig amgylchedd hynod gyfoethog a galluogol sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant gael eu herio ac iddynt gymryd risgiau priodol. Mae hyn yn cefnogi eu holl feysydd dysgu a datblygu. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da iawn o grantiau i ddatblygu a gwella eu hamgylchedd.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch perthnasol. Maent yn cofnodi gwiriadau diogelwch dyddiol, misol a blynyddol ac mae pob rhan o'r lleoliad yn lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw mewn ffordd addas. Mae'r arweinwyr wedi datblygu asesiadau risg da, ac maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ar gyfer teithiau y tu hwnt i'r lleoliad ac ymwelwyr â'r lleoliad. Maent yn ystyried y peryglon y tu mewn a'r tu allan er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r ystafell chwarae yn fawr, yn groesawgar ac yn olau. Mae arddangosfeydd ystyrlon ar y waliau ac maent yn cynnwys labeli ac arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn hawdd a chwarae yn ogystal ag ardaloedd iddynt ddod at ei gilydd yn gyfforddus fel grŵp. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau amrywiol, diddorol ac sy'n briodol o ran lefelau datblygiad ar gael i'r plant. Maent yn gwneud defnydd da iawn o lawer o adnoddau naturiol a phenagored. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am yr adnoddau ac i helpu i dacluso pan fyddant wedi gorffen chwarae.

Mae ardal chwarae awyr agored fawr atodedig y tu allan i ddwy ochr i'r adeilad ac mae'r ardal hon yn cynnig cyfleoedd helaeth pellach i ddysgu a datblygu ym mhob maes. Caiff y plant gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau plannu a thyfu drwy ddulliau garddio mewn cynwysyddion. Cynigir cyfleoedd rhagorol pellach iddynt archwilio'r byd mwy naturiol mewn ardal goetir ddiogel y gellir ei chyrraedd drwy daith fer ar droed o'r prif adeilad. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu'r ardal hon i gynnwys cegin fwd fawr a seddau. Defnyddir ardaloedd glaswelltog ychwanegol o amgylch y lleoliad ar gyfer digwyddiadau fel diwrnod mabolgampau.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da sy'n briodol o ran oedran y plant, gan gynnwys rhai sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol fel dillad gwisgo i fyny. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn briodol ar gyfer y plant yn y lleoliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir er mwyn creu lleoliad cynnes a chroesawgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda phob ymarferydd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna'r plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn

annog yr arweinwyr i greu a chynnal etheg gwaith tîm cadarnhaol lle mae'r staff yn cefnogi ei gilydd yn dda.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau sy'n tywys yr ymarferwyr yn effeithiol yn eu gwaith. Mae'r arweinwyr yn gwerthuso pob maes o waith y lleoliad yn gywir ac yn rhannu ethos y lleoliad er mwyn datblygu amgylchedd gofalgar, cynnes a diogel lle gall y plant dyfu, dysgu a datblygu drwy chwarae.

Mae digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol i ofalu am y plant. Maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt ddisgrifiadau swydd manwl. Mae'r arweinwyr yn cwblhau arfarniadau staff blynyddol yn effeithiol; mae'r rhain yn nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyfleoedd hyfforddi pwrpasol sy'n datblygu eu gwaith yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar ar y Cwricwlwm i Gymru, gwnaeth yr ymarferwyr benderfyniadau gwybodus am y cyfleoedd chwarae a gynigir drwy gydol y sesiynau.

Mae gan y rheolwyr a'r arweinwyr brosesau hunanwerthuso addas sy'n cefnogi gwaith y lleoliad. Maent yn cydnabod eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella, er nad ydynt ar brydiau yn dathlu'r cynnydd da iawn y maent yn ei wneud. Mae'r cynlluniau gwella yn nodi'r meysydd y mae'r ymarferwyr am eu datblygu a defnyddir cyllid yn briodol i wella gwaith y lleoliad. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi gosod storfeydd sy'n addas i'r plant yn yr ardal awyr agored sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Mae'r rheolwyr a'r arweinwyr wedi meithrin cysylltiadau parhaus a chadarn ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn cefnogi dysgu a datblygu'r plant yn llawn. Ceir cysylltiad agos â'r athro ymgynghorol lleol sy'n cynnig strategaethau ac arweiniad i'r lleoliad yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn rhoi systemau effeithiol ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau pontio sefydledig â'r ysgolion lleol y mae'r lleoliad yn bwydo iddynt yn sicrhau bod y plant yn hyderus wrth symud ymlaen i'w cam addysg nesaf.

Mae cydberthnasau agos rhwng yr arweinwyr a'r ymarferwyr a'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn cydweithio'n dda i sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu hystyried wrth iddynt bontio o'r cartref i'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr yn rheolaidd am gynnydd eu plant drwy sgyrsiau dyddiol ac ar grŵp caeedig ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwahoddir y rhieni a'r gofalwyr i fynychu digwyddiadau rheolaidd fel diwrnod mabolgampau a chyngherddau Nadolig.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi:  30/01/2023